

**Diweddariad i Gynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr Ynni Clyfar GB
ar gyfer Cyflwyno Mesuryddion Clyfar
Rhagfyr 2014**

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Rhagfyr 2013 cyhoeddodd Ynni Clyfar GB (y Corff Cyflawni Canolog Mesuryddion Deallus bryd hynny) ei Gynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr ar gyfer cyflwyno Mesuryddion Clyfar. Mae'r cynllun hwn wedi'i gynhyrchu i gyd-fynd â gofynion yr Addasiadau i Amodau Safonol y Trwyddedau Cyflenwi Trydan a Nwy, Dosbarthu Trydan a Chludo Nwy ("y trwyddedau" o hyn ymlaen) a gellir eu gweld yn Saesneg yn: <http://www.smartenergygb.org/sites/default/files/engagement-plan-1213.pdf> ac yn Gymraeg yn: <http://www.smartenergygb.org/sites/default/files/welsh-translation-of-consumer-engagement-plan.pdf>.

1.2 Yn unol â gofynion y trwyddedau, mae Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr Ynni Clyfar GB yn destun adolygiad parhaus, ac mae'n cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd er mwyn iddo barhau i fod yn gywir, yn ddiweddar ac yn addas i'r diben. Y cyhoeddiad hwn yw'r diweddariad cyntaf i'r Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr. Mae Ynni Clyfar GB yn gwneud y cyfryw ddiweddariadau yng ngoleuni cyngor arbenigol priodol ac yng ngoleuni ei farn ddiweddaraf o agweddau a gofynion defnyddwyr.

1.3 Trwy gydol 2014 dechreuodd Ynni Clyfar GB roi'r Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr ar waith, gan sicrhau ei fod yn gwneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost-effeithiol ac er mwyn iddo gyflawni gwerth am arian wrth berfformio ei weithgareddau. Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan i fesuryddion clyfar barhau i gael eu cyflwyno trwy gydol 2014, ac wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn mae ychydig o dan filiwn o fesuryddion clyfar bellach wedi'u gosod mewn aelwydydd a busnesau bach ar draws tair cenedl Prydain Fawr. Mae manylion gweithgareddau a chyllideb gyffredinol Ynni Clyfar GB ar gyfer 2014 wedi'u cyhoeddi ac maent ar gael ar ein gwefan yn: <http://www.smartenergygb.org/sites/default/files/smart-meter-central-delivery-body-2014-budget.pdf>.

1.4 Bydd adroddiad manylach o'r cyflawniadau yn 2014 yn cael ei gynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2014, a gaiff ei gyhoeddi cyn 31 Mawrth 2015. Fodd bynnag, mae crynodeb o rai o'r meysydd cyflwyno allweddol yn 2014 wedi'i amlinellu yn adran 2 isod, gan fod hwn yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer y rhannau o'r Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr sydd wedi cael eu diweddarau.

1.5 Cyhoeddwyd fersiwn Saesneg y ddogfen hon ar ddiwedd mis Rhagfyr 2014. Caiff cyfieithiad Cymraeg ei gyhoeddi ar ddechrau 2015 a bydd ar gael ar wefan Ynni Clyfar GB.

1.6 Mae'r trwyddedau'n mynnu bod Ynni Clyfar GB yn cyhoeddi manylion ei gyllidebau ar wahân i unrhyw ddiweddariad i'r Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr. Gan hynny, tynnir sylw hefyd at gyhoeddiad cyllideb Ynni Clyfar GB 2015, sydd ar gael ar ein gwefan.

2. Cynnydd Ynni Clyfar GB ar ennyn diddordeb defnyddwyr yn 2014.

2.1 Gwnaed cynnydd pwysig mewn nifer o feysydd yn 2014 trwy roi ein Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys:

2.1.1 *Cywain mewnwelediad:* Parhawyd â'n rhaglen o ymchwil gyda defnyddwyr a ddechreuwyd yn 2013, gan gynnwys trwy raglen o grwpiau ffocws defnyddwyr a gynhaliwyd ar draws y genedl yn chwarter cyntaf 2014. Canolbwyntiodd y gweithgarwch hwn ar gyfeirio naratif a chwalu mythau, segmentiad cynulleidfaoedd, ac anghenion penodol grwpiau bregus. Roeddem am ddeall agweddau ac ymddygiadau defnyddwyr yn well mewn perthynas â phrynu nwy a thrydan a'u hagweddau posib at fesuryddion clyfar.

Datblygwyd ein gwaith o gywain mewnwelediad ymhellach yng nghanol 2014 pan gomisiynwyd Populus i gynnal un o'r darnau mwyaf erioed o ymchwil feintiol i agweddau'r cyhoedd at ynni a mesuryddion clyfar. Mae'r ymchwil hon ar gael ar ein gwefan yn: <http://www.smartenergygb.org/media-and-resources/press->releases/research-paints-picture-consumer-mistrust-confusion-and-anxiety>.

Cyflawnwyd ymchwil gynhwysfawr gyda budd-ddeiliaid hefyd, yn benodol er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o anghenion unigolion sy'n fregus mewn ffyrdd gwahanol (gan adlewyrchu'r gofyniad yn ein trwydded i roi cymorth penodol i ddefnyddwyr sydd ar incwm isel neu'n defnyddio mesuryddion rhagdal, neu ddefnyddwyr sydd o bosib yn wynebu rhwystrau ychwanegol i fedru gwireddu buddion systemau mesuryddion clyfar oherwydd eu hamgylchiadau neu nodweddion penodol) ac anghenion cwsmeriaid sy'n microfusnesau. Galluogodd hyn i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o'r cydbwysedd cywir mewn rolau rhwng gweithgareddau ennyn diddordeb y cyhoedd Ynni Clyfar GB a gweithgareddau cyflenwyr ynni unigol, sydd â rôl hollbwysig wrth ennyn diddordeb eu cwsmeriaid unigol eu hunain:

Ynni Clyfar GB	Cyflenwr Ynni	Cyflenwr Ynni <u>ac</u> Ynni Clyfar GB
<p>Annog y cyhoedd i ddeall a dymuno cael gosodiad mesurydd clyfar</p>	<p>Deialog gyda chwsmeriaid o ran y gosodiad yn eu cartref</p>	<p>Defnyddio mesuryddion clyfar i elwa trwy ostwng y defnydd o ynni</p>
<ul style="list-style-type: none"> •Cynhyrchu dealltwriaeth o beth yw mesurydd clyfar •Creu diddordeb a dymuniad am gael gosodiad (wedi'i gyfeirio trwy esbonio'r buddion) •Cyfathrebu dealltwriaeth yn annibynnol i gyflenwyr o sut i hygyrchu gosodiad a dealltwriaeth generig o beth i ddisgwyl •Ffocws ychwanegol ar gyrraedd cynulleidfaoedd bregus <p>Estyn gweithgareddau domestig i sefyllfa nad yw'n ddomestig lle bo'n briodol ac yn gost-effeithiol i wneud hynny</p> <p><i>1-i-lawer gan Ynni Clyfar GB, ar draws sianeli a chyda phartneriaid</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> •Deialog penodol gyda chwsmeriaid unigol am sut y gallant hygyrchu eu gosodiad •Esbonio'r gosodiad "ar y diwrnod" •Unrhyw gwestiynau am y gosodiad penodol •Cefnogaeth yn ystod y gosodiad e.e. sut mae sgrin arddangos (IHD) y mesurydd clyfar yn gweithio, cyngor ar arbed ynni, cyngor ar osgoi gwenwyno gan garbon monocsid •Ymdrin ag unrhyw gwynion neu ddilyn i fyny'n syth ar ôl y gosodiad unigol <p><i>Deialog 1-i-1 rhwng y cyflenwr a chwsmeriaid</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> •Esbonio sut i ddefnyddio'r mesurydd clyfar i leihau'r defnydd o ynni •Ynni Clyfar GB: normau cymdeithasol a darparu cyngor cyffredinol i'r cyhoedd (domestig a sefyllfaoedd nad ydynt yn ddomestig pan fydd yn briodol ac yn gost-effeithiol i wneud hynny) <p>Cyflenwyr ynni unigol: deialog gyda'u cwsmeriaid eu hunain</p> <p><i>1-i-lawer gan Ynni Clyfar GB ar draws sianeli a chyda phartneriaid a deialog 1-i-1 rhwng y cyflenwr a phob cwsmer unigol</i></p>

Hoffem ddiolch yn benodol i'r holl fudiadau a'n cynorthwyodd ni gyda'r ymchwil hon â budd-ddeiliaid; mae rhestr lawn o'r mudiadau hynny wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen hon.

2.1.2 Datblygu ein dull o weithio mewn partneriaeth: Nododd nifer o sefydliadau, gan gynnwys Pwyllgor Ynni a Newid yn yr Hinsawdd Tŷ'r Cyffredin yn ei adroddiad ar gyflwyno mesuryddion clyfar ym mis Gorffennaf 2013, bwysigrwydd cydweithio agos rhwng Ynni Clyfar GB a phartneriaid (e.e. o'r trydydd sector fel llwybr i ennyn diddordeb y cyhoedd. Cydnabyddodd y Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr fod partneriaethau'n elfen allweddol o weithgareddau ennyn diddordeb. Yn 2014 dechreuwyd deialog â nifer o'r partneriaid allweddol posib y gallai fod angen i ni gydweithio â hwy, a chynhaliwyd trafodaethau â hwy ynglŷn â lefel yr adnoddau y bydd ei hangen i greu'r partneriaethau hyn a'u rhoi ar waith. Mae hyn yn cyfrannu at ddatblygiad ein strategaeth a chynllun cyflwyno marchnata partneriaeth, a gaiff ei roi ar waith yn 2015.

2.1.3 Datblygu hunaniaeth yr ymgyrch graidd: Ar sail y mewnwelediad a gyweiniwyd gan yr ymchwil gyda defnyddwyr a ddisgrifiwyd yn 2.1.1 uchod, ac anghenion partneriaid posib, gwnaethom geisio (yn unol â'r gofynion yn ein trwyddedau) y cyngor arbenigol cywir i'n cefnogi ni wrth ddylunio hunaniaeth graidd cyfathrebiadau'r ymgyrch. Mae'r hunaniaeth graidd hon ar ffurf mynegiad o brofiad cyfredol aelwydydd a microfusnesau o brynu nwy a thrydan a'r rôl sydd gan fesuryddion clyfar o ran trawsnewid y profiad hwnnw; ac mae'n canolbwyntio ar y ddau gymeriad, Gaz a Leccy. Gallwch weld mwy am Gaz a Leccy ar ein gwefan yn: <http://www.smartenergygb.org/national-rollout/gaz-leccy>.

2.1.4 Rhoi sianeli digidol Ynni Clyfar GB ar waith: Rydym wedi rhoi ein sianeli digidol â brand cyntaf sy'n eiddo i ni ar waith, gan sefydlu gwefan i ddefnyddwyr. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu ymagwedd peiriant chwilio o ran optimeiddio'r peiriant chwilio a thalu fesul clic.

2.1.5 Datblygu ennyn diddordeb a dealltwriaeth y cyhoedd trwy ddigwyddiadau cyhoeddus a'r cyfryngau: Mae Ynni Clyfar GB wedi bod wrthi'n ennyn diddordeb yn weithredol trwy fynychu a chynnal digwyddiadau budd-ddeiliaid, a thrwy ddeialog yn y cyfryngau cenedlaethol a lleol (ar draws sianeli ar-lein, darlledu ac wedi'u hargraffu).

Bydd hyn yn parhau ac yn cynyddu trwy gydol 2015.



2.1.6 *Hysbysebu cychwynnol*: i gefnogi gosodiadau mesuryddion clyfar cyfredol a pharhaus a galluogi ymagwedd "profi a dysgu" at ein hymgyrch, darlledwyd hysbysebion wedi'u targedu ar y radio mewn ardaloedd wedi'u targedu yn chwarter olaf 2014. Mae'r ymgyrch hon yn destun craffu ac ymchwil fanwl, i alluogi dysgu i'r graddau mwyaf posib ac integreiddio'r dysgu hwnnw i hysbysebu sy'n cael ei roi ar waith yn 2015.

3. Sicrhau graddfa briodol gweithgareddau ennyn diddordeb Ynni Clyfar GB yn 2015.

3.1 Rydym wedi gweithio'n ofalus i gynllunio'r raddfa angenrheidiol o weithgareddau ennyn diddordeb y cyhoedd a sicrhau bod gweithgareddau'n canolbwyntio ar y sianeli mwyaf effeithiol sy'n cynnig y gwerth gorau am arian er mwyn cefnogi'r nifer o osodiadau a ragfynegir ar draws yr holl gyflenwyr yn 2015.

3.2 Rydym wedi defnyddio'r nifer diweddaraf wedi'i ragfynegi o osodiadau mesuryddion clyfar a ddarparwyd i Ynni Clyfar GB gan DECC i gefnogi'r cynlluniau hyn. Mae'r broses gynllunio wedi bod yn drylwyr ac wedi'i chynnal gan ddefnyddio tri o'r grwpiau asiantaeth arbenigedd cynllunio mwyaf blaenllaw yn y DU (Aegis, WPP, Omnicom), i alluogi profi/dilysu'r argymhellion cychwynnol a'u mireinio i sicrhau bod y dadansoddiad terfynol sy'n sail i'n cynlluniau'n gadarn ac yn cynnig gwerth am arian.

3.3 Cred Bwrdd Ynni Clyfar GB fod y sefydliad wedi ystyried y rhagfynegiadau diweddaraf sydd ar gael o nifer y gosodiadau mesuryddion clyfar ar gyfer 2015 a 2016 yn briodol, ac wedi adlewyrchu'r rhain yn iawn wrth ddatblygu lefel briodol o weithgareddau ennyn diddordeb yn 2015. Er hynny, rydym yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y rhagfynegiadau gorau posib sydd ar gael o nifer y gosodiadau mesuryddion clyfar yn 2015/2016 yn newid; er enghraifft, o ganlyniad i unrhyw oedi o ran capasiti neu newidiadau gweithredol o isadeiledd craidd rhaglen mesuryddion clyfar Prydain Fawr, sef y DCC.

3.4 Dyna pam y bydd Bwrdd Ynni Clyfar GB yn:

- Cael ei hysbysu'n rheolaidd gan staff Ynni Clyfar GB (sy'n cael eu hysbysu gan DECC) o unrhyw newidiadau i'r nifer cyfunol wedi'i ragfynegi o osodiadau mesuryddion clyfar ar draws cyflenwyr
- Os bydd DECC yn cyhoeddi unrhyw newid yn y niferoedd a ragfynegir, bydd y Bwrdd yn ystyried p'un a yw'r newid yn effeithio'r sail yr oedd Ynni Clyfar GB wedi cynllunio arni ai beidio, ac felly p'un a ddylai Ynni Clyfar GB newid maint y gweithgarwch ennyn diddordeb cynlluniedig yn 2015 a/neu newid y cymysgedd o weithgareddau arfaethedig er mwyn iddynt adlewyrchu'r dasg o gefnogi unrhyw ragfynegiadau newydd o nifer y gosodiadau mesuryddion clyfar ar draws cyflenwyr.

4. Gweithgareddau Ynni Clyfar GB yn 2015

4.1 Byddwn yn parhau i fireinio ein segmentiad bras o boblogaeth Prydain Fawr yn seiliedig ar agweddau perthnasol i'n galluogi ni i dargedu gweithgareddau ennyn diddordeb gyda'r cyhoedd trwy gydol y cyflwyniad, ond yn benodol yn 2015, mewn ffordd sy'n debygol o fod yn effeithiol ac yn berthnasol.

4.2 O ystyried yr ymagwedd gymhleth at ennyn diddordeb ar draws sianeli lluosog, bydd angen i'r segmentiad ddarparu set ddata gyffredin ar gyfer ein gwaith ein hunain a gwaith gyda phartneriaid, i'w gymhwysu ar draws yr holl sianeli cyfathrebu.

4.3 Gan fod y cyflwyniad domestig fesul aelwyd yn hytrach nag unigolyn, mae angen ymagwedd benodedig at fapio mathau gwahanol o fregusrwydd. Gan hynny byddwn yn cyfuno segmentiad seiliedig ar agweddau ag echel sy'n anelu at blotio gallu i fabwysiadu ochr yn ochr ag agwedd. Bydd hyn yn ein cynorthwyo ni i ddiffinio'r dasg o ennyn diddordeb yn seiliedig ar y ddau rwystr bosib hwn. Er nad yw'r nodweddion o reidrwydd yn cau ei gilydd allan, maen nhw'n caniatáu i ni allosod cynulleidfaoedd sydd, o bosib, yn meddu ar yr agwedd ond nid y gallu i fabwysiadu oherwydd eu bregusrwydd, ac felly dylunio ein cefnogaeth ar gyfer y grŵp/grwpiau penodol hyn.

4.4 Mae gennym ffrwd waith benodol i adnabod a chefnogi unigolion ac aelwydydd bregus sy'n seiliedig yn drwm ar bartneriaethau ac wedi'i chefnogi gan gefnogaeth wedi'i thargedu y talwyd amdani yn y cyfryngau (megis cyhoeddiadau arbenigol). Rydym yn gyffrous y byddwn yn sefydlu panel newid ymddygiad arbenigol a phanel sydd ag arbenigedd ar anghenion unigolion/grwpiau bregus yn 2015, y bydd y ddau ohonynt yn rhoi cyngor i ni ar weithrediad manwl ein gweithgareddau ar gyfer y grwpiau hynny.

4.5 Mae'r trwyddedau'n gosod rhwymedigaeth ar Ynni Clyfar GB i estyn ein gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr i ficrofusnesau pan dybir ei fod yn gost-effeithiol i wneud hynny.

4.6 Ar ôl ystyried y dulliau gorau o gyflwyno gweithgareddau cost-effeithiol i ficrofusnes, ein hymagwedd drosgynnol fydd estyn ein hymgyrch ar gyfer defnyddwyr domestig yn hytrach na datblygu ymgyrch greadigol unigryw ar wahân ar gyfer microfusnesau.

4.7 Bydd estyn allan i microfusnesau yn 2015 a'r tu hwnt ar ffurf partneriaethau gyda nifer bach o sefydliadau busnes yn bennaf. Byddwn yn cefnogi'r gwaith hwn gyda chefnogaeth y telir amdani yn y cyfryngau sydd wedi'i thargedu'n ofalus.

4.8 Yn benodol mae hyn yn golygu y byddwn/na fyddwn yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn:

- Byddwn yn parhau i ymgynghori â sefydliadau/arbenigwyr cynrychioli allweddol i ddeall anghenion microfusnesau a buddion mesuryddion clyfar ar gyfer microfusnesau
- Ni fyddwn yn datblygu ymgyrchoedd creadigol wedi'u teilwra ar gyfer microfusnesau ond os yw'n briodol, byddwn yn diwygio copi/negeseuon o fewn asedau ein hymgyrch i ddefnyddwyr er mwyn iddynt fod yn berthnasol i gynulleidfaeod microfusnesau
- Byddwn yn darparu'r asedau ymgyrch a chanllawiau diwygiedig ar gyfer grwpiau busnes a/neu fusnesau eu hunain, y byddant o bosib eisiau eu defnyddio yn eu sianeli eu hunain
- Byddwn yn darparu gwybodaeth am gyflwyno mesuryddion clyfar ar gyfer microfusnesau ar ein gwefan ac yn optimeiddio ein gweithgareddau PPC/SEO er mwyn gyrru ymholiadau perthnasol i'r tudalennau hyn ar ein gwefan
- Er mwyn cefnogi ein gweithgareddau partneriaeth ar gyfer microfusnesau, byddwn yn ystyried prynu gofod mewn cyfryngau a dargedir i bwysleisio'r gweithgarwch hwnnw ymhellach
- Byddwn yn darparu cynnwys golygyddol ar gyfer cyhoeddiadau sy'n targedu microfusnesau
- Byddwn yn anelu at beidio â mynd i gostau rheoli cysylltiadau ychwanegol neu barhaus (mewn perthynas â sefydliadau/perchnogion y cyfryngau sy'n cynrychioli neu'n gwasanaethu microfusnesau)

4.9 Wrth i ni ddechrau rhoi gweithgareddau partneriaeth ar waith yn chwarter cyntaf 2015 byddwn yn canolbwyntio ar roi arferion a fframweithiau gwerthuso cadarn ar waith ar y cyd â'r arbenigwyr a benodir i gyflwyno elfennau o'r rhaglen partneriaethau craidd a datblygu asedau partneriaid. Wedyn byddwn yn symud ymlaen at archwiliad a chyd-drafodaeth fanwl o'r contractau cyntaf ar gyfer partneriaid cyflwyno a chenedlaethol allweddol ac yna sefydlu cronfa gynigion ehangach a all gefnogi amrediad eang o weithgareddau partneriaeth yn 2016 a'r tu hwnt.

4.10 Y rôl ar gyfer sianeli marchnata mewn y telir amdanynt yn y cyfryngau yn 2015 yw dechrau normaleiddio bodolaeth mesuryddion clyfar; addysgu a chalonogi'r rhai sydd â diddordeb mewn buddion mesuryddion clyfar ond yn pryderu y byddant yn rhy gymhleth i'w defnyddio neu y bydd nodweddion negyddol cuddiedig; dal dwylo'r rhai y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt a sicrhau ein bod y cyrraedd cynulleidfaoedd bregus ac yn darparu'r cymorth y mae ei angen arnynt trwy bartneriaethau; ac yn hollbwysig, mwyafu derbyn gosodiadau ar gyfer y gosodiadau hynny a ragfyneir yng ngham cyflwyno 2015 a deori hynny wrth i hyn gynyddu ymhellach tua 2016.

4.11 Oherwydd natur amryfal ein hamcanion ar gyfer 2015, mae angen ymagwedd amlgyfrwng i drosoli cryfderau pwyntiau cyffwrdd gwahanol y cyfryngau i gyflwyno yn erbyn tasgau penodol y telir amdanynt yn y cyfryngau. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannau a fernir yn ofalus o'r wasg, radio, allan o'r cartref a digidol. Ein hymagwedd at ddefnyddio cyfryngau y telir amdanynt fydd sicrhau ein bod yn targedu'n gymaint â phosib, gan gyrraedd pobl efallai y bydd eu cyflenwyr ynni'n cysylltu â nhw fel rhan o osodiadau yr anelir at eu cyflawni yn 2015, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac ar yr un pryd cychwyn ar lefel briodol ond nid gormodol o ysgogi a chynyddu diddordeb ymhlith y rhai y mae'n bosib y bydd angen iddynt aros yn hwy i dderbyn eu mesurydd clyfar.

4.12 Rydym wedi defnyddio offeryn cynllunio arbenigol i sicrhau nad yw ein gweithgareddau cyfryngau y telir amdanynt yn gostwng i lefel rhy isel, ond hefyd nad ydynt yn ormod mewn perthynas â'r angen neu werth am arian.

4.13 Mae gennym dasg bwysig i barhau ag adeiladu cyfathrebu â budd-ddeiliaid yn 2015; boed hynny gyda chynrychiolwyr etholedig, grwpiau defnyddwyr, sefydliadau cymunedol neu elusennau - ochr yn ochr â gwaith ennyn diddordeb priodol i addysgu difriwyr. Yn ystod chwarter cyntaf 2015 bydd rhai budd-ddeiliaid gwleidyddol wrth reswm yn canolbwyntio ar yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2015 (cynhelir etholiadau i Senedd yr Alban a Chynulliad Cymru ym mis Mai 2016). Fodd bynnag, bydd ennyn diddordeb y budd-ddeiliaid hynny'n weithredol yn hanfodol o ran cyfathrebu buddion mesuryddion clyfar i'w hetholwyr wrth i'r cyflwyniad gyflymu. Byddwn yn cynnal cyswllt effeithiol â nhw a'u staff, ac yn adnewyddu ein cysylltiadau ar ôl yr etholiad. Byddwn yn parhau ag adeiladu ein rhaglen gefnogaeth weithredol ar gyfer Seneddwyr yr Alban ac Aelodau Cynulliad Cymru, ynghyd ag awdurdodau lleol ar draws tair cenedl Prydain Fawr.

4.14 Wrth i ymwybyddiaeth gynyddu, bydd diddordeb elusennau a sefydliadau defnyddwyr yn cynyddu ar ran y sawl y maent yn eu cynrychioli. Trwy gydol 2015 mae angen i ni gefnogi grwpiau budd-ddeiliaid er mwyn iddynt feddu ar ymwybyddiaeth dda y bydd yr ymgyrch gyflwyno dorfol yn dechrau'n fuan a'u bod yn barod i gefnogi eu hetholaethau trwy gydol yr ymgyrch honno.

5. Cywain mewnwelediad, mesuriad a gwerthusiad pellach a pharhaus o weithgareddau ennyn diddordeb Ynni Clyfar GB

5.1 Mae Ynni Clyfar GB yn ymrwymedig i ddefnyddio ymagwedd "profi a dysgu" at optimeiddio meysydd allweddol o wariant. Bydd yr ymagwedd profi a dysgu'n sicrhau y bydd modd i Fwrdd Ynni Clyfar GB roi ystyriaeth i effeithiolrwydd a gwerth am arian y sefydliad trwy gydol 2015. Mae profi a dysgu, a'r gallu i werthuso effeithiolrwydd yn berthnasol ar draws holl feysydd gweithgarwch Ynni Clyfar GB, ond mae'n arbennig o bwysig mewn perthynas â gweithgareddau marchnata y telir amdanynt a gweithgareddau marchnata partneriaeth.

5.2 Gan hynny, mae amseru'r ddau faes gweithgarwch hyn wedi'i ddylunio i gefnogi ymagwedd profi a dysgu a grymuso'r Bwrdd i ddarparu unrhyw gyfarwyddyd y mae'n ystyried ei fod yn briodol o ran effeithiolrwydd ac unrhyw newid mewn cynlluniau gwariant trwy gydol y flwyddyn.

5.3 Mae Bwrdd Ynni Clyfar GB wedi datblygu cyfres gynhwysfawr o brosesau cywain mewnwelediad, mesur a gwerthuso i sicrhau ei fod yn derbyn adroddiadau rheolaidd trwy gydol 2015 ar effeithiolrwydd ein gweithgareddau ac y gall roi unrhyw newidiadau angenrheidiol i'n cynlluniau o ganlyniad i brofi a dysgu ar waith yn ystod y flwyddyn.

5.4 Mae Ynni Clyfar GB wedi cefnogi Cyflenwyr Perthnasol hefyd i gyflawni gofyniad eu trwydded i ystyried diwygiadau priodol i'r Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n amlinellu'r dangosyddion perfformiad a thargedau allweddol a bennwyd gan gyflenwyr perthnasol fel safonau y maent yn tybio y dylid barnu perfformiad Ynni Clyfar GB yn eu herbyn.

Atodiad 1

Ni fyddai rhoi ein gweithgareddau ennyn diddordeb defnyddwyr ar waith yn 2014 a diweddarau ein Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr wedi bod yn bosib heb gefnogaeth a mewnbwn gan nifer o fudiadau a roddodd o'u hamser i gyfrannu eu harbenigedd atom ni. Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi caniatáu i ni elwa o'u harbenigedd, gan gynnwys:

4Children

Action with Communities in Rural England

Affinity Sutton

Age Cymru

Age Scotland

Age UK

Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Newid Ymddygiad

Cymdeithas Tai Almond

Alzheimer Scotland

Y Gymdeithas Alzheimer

Arqiva

Y Gymdeithas Cadwraeth Ynni

Cymdeithas Tai Barrhead

BEAMA

Behaviour Change

Bield Housing and Care

Bristol Power Co-op

Cymdeithas Gyfrifiadurol Pobl Ddall

Prydain Nwy Prydain

Cymdeithas Tai Cadder

Gofal a Thrwsio Cymru

Carers Scotland

Gofalwyr Cymru

Cartrefi Cymru

Ysgol Fusnes Cass

Centre for Cities

Canolfan Ynni Cynaliadwy

Changeworks

Charities Aid Foundation

CharityComms
Cheshire West and Chester Council
Cymdeithas Tai Cheviot
Circle Housing
Cyngor ar Bopeth Cymru a Lloegr
Cyngor ar Bopeth Yr Alban
Co-operative Energy
Grŵp Tai Coastal
Community Action Northumberland
Y Sefydliad Datblygu Cymunedol
Community Energy Plus
Community Energy Scotland
Community First Wiltshire
Grŵp Tai Cymunedol Cymru
Core Cities
Cornwall Energy
Cymorth Cymru
Cynnal Cymru
Demos
Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd
Devon Senior Voice
Digital Outreach / Convey
DONG Energy
Dual Energy
E.ON
Cyngor Sir Dwyrain Sussex
Ecotricity
EDF Energy
Cymdeithas Tai Eildon
Elizabeth Finn Care
Energise Barnet
Energise London
Energy Action Scotland
Yr Asiantaeth Ynni



Y Gynghrair Ynni a Chyfleustodau
Y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni
Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Energy UK
Grŵp Diwydiant Mesuryddion Clyfar Ewrop
Extra Energy
Y Ffederasiwn Busnesau Bach
First Utility
First Wessex
Flow Energy
Forum for the Future
Future Energy Solutions
Elusen Gas Safe
Gazprom
Gentoo
Gingerbread
Cymdeithas Tai Glasgow / Grŵp Wheatley Global
Action Plan
Gocompare.com
Good Energy
Grandparents Plus
Awdurdod Llundain Fawr
Y Gynghrair Werdd
Ynni Werdd DU
Grŵp GreenSquare
Groundwork
Groundwork North East & Cumbria
Haven Power
Hikmat Devon
Hindu Council UK
Housing & Care 21
Inclusion Scotland
Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus
Sefydliad Joseph Rowntree

Cymdeithas Tai Kingdom
Anableddau Dysgu Cymru
Cynllun Gweithredu Ynni Lleol
Localgiving
London Energy Project
London First
London Sustainability Exchange
Yr Ymddiriedolaeth Gyfryngau
MediaSense
mhs homes
Middlesbrough Environment City
Mind
Gwasanaeth Cyngor Ariannol
Money Saving Expert
Moneysupermarket.com
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Y Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol Cenedlaethol
Gweithredu Ynni Cenedlaethol
Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru
Y Ffederasiwn Tai Lleol
Y Gymdeithas Landlordiaid Cenedlaethol
National Right 2 Fuel UK
National Skills Academy for Power
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
Gwarchod y Gymdogaeth
Cyngor Dinas Newcastle
Cyngor
Newham
Npower
Ofcom
Ofgem
Gwasanaethau Ombwdsmon
One Parent Families Scotland
Opower
Opus Energy
Orbit Group



Cymdeithas Tai Ore Valley

Ovo Energy

Cymdeithas Tai Partick

PayPoint

Peabody

Cymdeithas Tai Pineview

Places for People

Policy Connect

Sefydliad Astudiaethau Polisi, Prifysgol Westminster
Cymdeithas Tai Port of Leith
Y Swyddfa Bost
Power 2020
Iechyd Cyhoeddus Lloegr
PwC
Cymdeithas Tai Queens Cross
Renewable Power Exchange
Rightmove
RNIB
RNIB Cymru
Sanctuary Group
Cymdeithas Landlordiaid Yr Alban
Siambrau Masnach Yr Alban
Cyngor Sefydliadau Gwirfoddol Yr Alban
Llywodraeth Yr Alban
Scottish Power
Sense Scotland
Shelter
Smart DCC
Smart Energy Code
SmartGrid GB
Social Market Foundation
Spark Energy
SSE
StepChange Debt Charity Scotland
Sustainable Homes
SwitchGasandElectric.com
Tadea-UK
Tai Cymru a'r Gorllewin
techUK
Telefónica
Thames Valley Chamber of Commerce
The Action Group
The Big Deal
Partneriaeth Guinness
The Highland Council

Yr Eglwys Fethodistaidd
Ymddiriedolaeth y Tywysog
The Wise Group
Thirteen Group
Turn2us
Sefydliadau Cymunedol y DU
UK Power Networks
Coleg y Brifysgol Llundain
uSwitch.com
Utilita Energy Utility
Warehouse
Llywodraeth Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ffederasiwn Tenantiaid Cymru
Which?
Grŵp Tai Yarlington
Your Homes Newcastle
ZapCarbon